WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Stuart Rosser
Prif Weithredwr Dros Dro
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Tŷ Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
Hengoed
CF82 7PG

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 613A2013 |
| **Dyddiad** | 2 Rhagfyr 2013 |
| **Tudalennau** | **1** o **4** |

Annwyl Stuart

## Asesiad Gwella

Yn fy llythyr dyddiedig 15 Hydref 2013, rhoddais fy marn ar ba un a oedd y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant.

Mae’n ofynnol i mi hefyd, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), roi barn ar ba un a yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

**Yn fy marn i, ac ar sail gwaith archwilio a wnaed hyd yma, mae’r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur er bod potensial i gryfhau ei drefniadau ymhellach.**

Rwyf wedi dod i’r casgliad hwn oherwydd:

- Bod y Cyngor wed cymeradwyo a chyhoeddi ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2012-13 (yr Adroddiad) cyn y terfyn amser statudol, sef 31 Hydref 2013.
- Mae’r Adroddiad yn asesu perfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2012-13).
- Mae’r Adroddiad yn nodi sut mae'r Cyngor wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur.
- Mae’r Adroddiad yn cynnwys manylion perfformiad a chymariaethau fel y'i mesurir gan y dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol.
- Mae’r Adroddiad yn cynnwys manylion am y ffyrdd y mae'r Cyngor wedi ceisio cydweithio gan ddefnyddio enghreifftiau i ddangos canlyniadau rhai o'r achosion hyn o gydweithio.
- Mae’r Adroddiad ar gael yn Saesneg i'w lawrlwytho oddi ar wefan y Cyngor. Dylai’r fersiwn Gymraeg gael ei chyhoeddi ganol mis Tachwedd ar ôl i’r adroddiadau gael ei gyfieithu. Mae'r adroddiad ar gael hefyd ar ffurf copi caled, a gellir darparu fersiynau mewn fformatau eraill, fel Braille a sain, ar gais.

Mae'n bleser nodi bod y Cyngor wedi mynd i'r afael â llawer o'm cynigion ar gyfer gwella ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol a nodwyd yn fy llythyr dyddiedig 17 Rhagfyr 2012, yn benodol:

- Mae'r Adroddiad yn cynnwys data cymharol ar gyfer pob un o'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus sy'n dangos sut y mae'r Cyngor yn cymharu â chyfartaledd Cymru gyfan ac yn nodi ei safle ymhlith y 22 o Gynghorau yng Nghymru ar gyfer 2012-13 a 2011-12. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi adrodd ar ei berfformiad yn erbyn y targedau a osododd iddo'i hun yn ei Gynllun Gwella 2012-13.
- Mae'r Adroddiad yn cynnwys dehongliadau o'r data perfformiad i gynorthwyo darllenwyr i ddeall yn well os yw gwerth uchel yn dangos perfformiad da neu wael ac mae wedi nodi cyfeiriad y gwelliant yn gliriach. Yn ogystal, ar gyfer pob mesur perfformiad a adroddwyd, mae'r Cyngor wedi darparu crynodeb naratif o berfformiad er mwyn helpu i 'adrodd y stori' .
- Mae'r Cyngor wedi ymgorffori rhagor o wybodaeth ariannol yn yr Adroddiad i helpu dangos sut mae adnoddau yn cael eu gwario ym mhob Cyfarwyddiaeth, ac i dynnu sylw at y pwysau ariannol y mae'n ei wynebu.
- Mae'r Cyngor wedi defnyddio sylfaen dystiolaeth ehangach o wybodaeth i asesu a yw wedi cyflawni ei Amcanion Gwella, gan gynnwys defnyddio gwybodaeth fwy ansoddol, megis Arolwg Cartrefi 2013 ac Arolwg Cenedlaethol Cymru. Fodd bynnag, mae lle i ehangu'r sylfaen tystiolaeth ymhellach.
- Mae Pwyllgorau Craffu'r Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio wedi ymwneud mwy â gwerthuso llwyddiant y Cyngor wrth gyflawni ei Amcanion Gwella, a hynny drwy gydol y flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn i lywio datblygiad yr Adroddiad.
- Mae'r Adroddiad yn cyflwyno darlun tecach a mwy cytbwys o'i berfformiad eleni nag a wnaeth y llynedd.
- Ceir mynegbyst at leoliad yr Adroddiad yn hafan gwefan y Cyngor, gan ei gwneud yn haws i ddod o hyd iddo.

Rwyf wedi nodi nifer o feysydd lle gall y Cyngor wella'r Adroddiad ymhellach:

- Gellid darparu mwy o wybodaeth gyd-destunol o fewn prif naratif yr Adroddiad er mwyn rhoi darlun mwy cyflawn o berfformiad . Er enghraifft, mae datganiad y Cyfarwyddwr Addysg am berfformiad cyffredinol ar gyfer 2012-13 yn tynnu sylw at y ffaith mai un o gyflawniadau'r gwasanaeth Addysg yw bod ffigurau presenoldeb mewn ysgolion wedi cynyddu. Fodd bynnag, nid yw'r rhan hon o'r Adroddiad yn adlewyrchu'r ffaith bod perfformiad y Cyngor yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru ac yn parhau i fod yn y chwartel isaf. Dim ond yn y tabl o ddangosyddion yn ddiweddarach yn yr adran y ceir y wybodaeth hon.

- Gellid darparu gwerthusiad llawnach o berfformiad yn erbyn amcanion gwella'r Cyngor ym mhrif gorff yr Adroddiad. Cynhwysir perfformiad yn erbyn mesurau ynghyd â chamau gweithredu sy'n ymwneud â'r amcanion gwella yn Atodiad A, gan ddefnyddio adroddiadau perfformiad gan Ffynnon.
- Gallai'r Cyngor nodi'n fwy cyson pa gamau y mae'n mynd i'w cymryd i fynd i'r afael â pherfformiad gwael / tan-berfformio.
- Gellid ystyried defnyddio ac adrodd am wybodaeth gymharol mewn ffordd sydd wedi'i thargedu'n well. Er enghraifft, gallai'r Cyngor ystyried cymharu ei berfformiad â chynghorau neu gyrff tebyg eraill yn hytrach na dim ond defnyddio cyfartaledd Cymru gyfan.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion

Awgrymir un cynnig newydd gennym ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor mewn perthynas â gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

**Cynigion ar gyfer gwella**

C1 Yn Adroddiadau Perfformiad y dyfodol, dylai'r Cyngor:

- esbonio pa gamau unioni y mae wedi eu cymryd pan fydd gwybodaeth ynghylch perfformiad a gwybodaeth gymharol yn nodi meysydd y mae angen eu gwella;
- darparu mwy o wybodaeth gyd-destunol yn y prif naratif i roi darlun mwy cyflawn o berfformiad a darparu gwerthusiad llawnach o berfformiad yn erbyn ei amcanion gwella;
- ystyried defnyddio ac adrodd am wybodaeth gymharol sy'n ei gymharu â chynghorau tebyg yn ystod y flwyddyn ac yn Adroddiadau Perfformiad y dyfodol.

Byddaf yn gwneud gwaith manylach ar y trefniadau sy'n ategu prosesau rheoli perfformiad ac adrodd ar berfformiad y Cyngor dros y misoedd nesaf ac yn adrodd arno, yn ogystal â chrynhoi fy ngwaith fy hun i gyd a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2013-14, mewn Adroddiad Gwella Blynyddol i'r Cyngor y byddaf yn ei gyhoeddi ddiwedd mis Mawrth 2014.

Yn gywir



HUW VAUGHAN THOMAS

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Copi: Lesley Griffiths – Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Non Jenkins – Rheolwr

Jackie Joyce – Arweinydd Archwilio Perfformiad